Taith y brifddinas: sut crëwyd Caerdydd?

Ceir llawer o safleoedd hanesyddol y mae'n rhaid eu gweld ym mhrifddinas Cymru ac o'i hamgylch, sy'n dod â hanes rhyfeddol y wlad yn fyw. Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi'i lleoli yng nghalon y brifddinas, gyda chasgliad eithriadol o arddangosfeydd celf a gwyddoniaeth. 15 munud yn unig mewn car o'r canol mae Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf blaenllaw Ewrop, sy'n adrodd stori pobl Cymru. Hefyd o fewn 20 munud mewn car o'r canol mae Castell Caerffili, sydd â thŵr sy'n gwyro mwy na thŵr Pisa, a chafodd ei adfer gan farcwis Bute yn y 19eg ganrif. Mae Castell Coch gerllaw, y castell tylwyth teg hudolus gyda'i nenfydau a'i ddodrefn trawiadol, a oedd yn hafan wledig i farcwis Bute, yn werth ei weld hefyd, ac mae wedi'i leoli 15 munud yn y car o ganol y ddinas!

1



Pierre-Auguste Renoir, *La Parisienne* 1874

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Gall ymwelwyr ag **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**, sydd wedi'i lleoli yng nghanol dinas hardd Caerdydd, ddarganfod celf, natur ac esblygiad daearegol Cymru. Caiff ymwelwyr fwynhau'r casgliadau celf a gwyddoniaeth trawiadol o Gymru ac o bob cwr o'r byd, gan gynnwys deinosoriaid a'r mamoth blewog. Mae'r casgliadau celf yn cynnwys casgliad byd-enwog yr Argraffiadwyr gyda gweithiau gan Monet, Cézanne, Manet, Renoir, Van Gogh a Rodin, yn ogystal â'r gofod mwyaf yng Nghymru sydd wedi'i neilltuo i arddangos celf modern a chyfoes. Gyda rhaglen brysur o arddangosfeydd a digwyddiadau mawr teithiol a dros dro, mae rhywbeth at ddant pawb yma, waeth beth yw eu diddordeb. Mynediad am ddim.

3

Castell Caerffili

2

Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan

Gwelir **Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan** ar dir castell a gerddi Sain Ffagan, plasty bendigedig o ddiwedd yr 16eg ganrif a gyflwynwyd yn rhodd i bobl Cymru gan Iarll Plymouth. Dyma lecyn sy'n boblogaidd iawn ymhlith pobl Cymru a thwristiaid o bob cwr o'r byd a gall ymwelwyr astudio a mwynhau mwy na 2,000 o flynyddoedd o hanes Cymru mewn mwy na deugain o adeiladau hanesyddol gwreiddiol sydd wedi cael eu casglu o bob cwr o Gymru. Mae'r adeiladau'n dangos sut mae pobl Cymru wedi byw, gweithio, chwarae a threulio eu hamser hamdden drwy'r canrifoedd. Mae Sain Ffagan newydd ddechrau ar raglen ailddatblygu fawr er mwyn ei thrawsnewid yn brif Amgueddfa Hanes Genedlaethol ar gyfer Cymru, ond bydd yn parhau ar agor i ymwelwyr drwy gydol y prosiect. Yn 2012, cafodd ei dewis yn 'hoff amgueddfa' Prydain gan ddarllenwyr y cylchgrawn defnyddwyr poblogaidd Which? Mynediad am ddim.

Castell Caerffili yw'r castell mwyaf yng Nghymru. Mae'r gaer eiconig yn hynod drawiadol, wedi'i hamgylchynu gan gyfres o ffosydd ac ynysoedd dyfrol. Creadigaeth Gilbert 'the Red' de Clare yw'r castell, bonheddwr pengoch o dras Normanaidd, y cafodd ei ymdrechion cynnar i adeiladu'r castell eu llesteirio gan Lywelyn ap Gruffydd. Yn y pen draw, llwyddodd Gilbert i adeiladu cadarnle enfawr gan ddefnyddio'r system 'waliau oddi mewn i waliau' gonsentrig er mwyn amddiffyn yr adeilad. Gall ymwelwyr ddringo i ben to'r porthdy dwyreiniol enfawr ac oddi yma gellir gweld y cylch cerrig a'r amddiffynfeydd dŵr a wnaeth Gaerffili'n gadarnle mor gryf. Gellir archwilio coridorau tywyll a elwir yn Oriel Braose, ac mae'n anodd methu tŵr y de ddwyrain — sy'n gwyro mwy na thŵr enwog Pisa, ac mae'r peiriannau gwarchae hynod a'r digwyddiadau tanio arbennig yn werth eu gweld. Mae'r castell yn ffefryn fel cefndir ar gyfer rhaglenni teledu a ffilmiau, gan gynnwys Dr Who.

Taith y brifddinas:
sut crëwyd Caerdydd?

4



Castell Coch

Yr ochr arall i fynydd Caerffili, lai na 15 munud i ffwrdd, saif **Castell Coch** wedi'i guddio yn y coed. Saif Castell Coch ar sylfeini canoloesol castell a adeiladwyd yn gynharach gan de Clare. Fodd bynnag, mae'r strwythur presennol yn gymharol fodern ac yn sgil-gynnyrch dychymyg Fictoraidd hynod fyw. Cafodd William Burges ryddid llwyr gan drydydd marcwis Bute i greu hafan wledig i ategu cyfoeth ei brif breswylfa, Castell Caerdydd. Mae adnoddau amlsynhwyraidd yn ei gwneud yn hawdd archwilio'r castell Fictoraidd hwn o arddull Gothig, a oedd yn weledigaeth ramantus yn yr Oesoedd Canol, gan ddefnyddio technoleg sgrin cyffwrdd.

Ewch i **cadw.wales.gov.uk** i ddarganfod y straeon a'r bobl y tu ôl i'r 128 o safleoedd hanesyddol sydd gennym. Beth am 'Hoffi' Cadw ar Facebook a dilyn @Cadwwales ar Twitter neu lwytho'r ap sydd gennym i ffonau clyfar i lawr, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Ewch i **amgueddfacymru.ac.uk**, cofiwch hoffi Amgueddfeydd Cymru ar Facebook a dilynwch @AmgueddfaCymru.

Mae'r siwrnai o Gaerdydd i Sain Ffagan a Chastell Coch yn rhyw 15 munud, ac 20 munud i Gaerffili.